YSGOL DAVID HUGHES

PORTHAETHWY
YNYS MÔN LL59 5SS

Ffôn: (01248) 712287
Ffacs: (01248) 713919
e-bost:pennaeth.davidhughes@ynysmon.gov.uk

MENAI BRIDGE
ISLE OF ANGLESEY LL59 5SS

Tel: (01248) 712287
Fax: (01248) 713919
e-mail:pennaeth.davidhughes@anglesey.gov.uk

Pennaeth/Headteacher
Brian Jones BSc PhD

BWLETIN RHIENI
PARENTS' BULLETIN

MEDI/SEPTEMBER
2012

CROESO!

Croeso'n ôl i bawb ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. Croeso arbennig i ddisgyblion sy'n cychwyn yn Ysgol David Hughes o'r newydd ac i'w rhieni. Dymunwn flwyddyn hapus a llwyddiannus iawn i bawb.

Y Bwletin Rhieni – Er mwyn darparu gwybodaeth a sicrhau cysylltiad effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref bydd Bwletin Rhieni'n cael ei baratoi bob tymor/hanner tymor.

WELCOME!

Welcome back at the beginning of a new school year. A special welcome to all new pupils who are joining us and to their parents. We hope that this will be a very happy and successful year for everyone.

The Parents' Bulletin – In order to provide information and ensure effective communication between school and home, a Parents' Bulletin will be prepared every term/half term.

RHAI DYDDIADAU PWYSIG
SOME IMPORTANT DATES

Dydd Llun/Monday **17.09.2012**	Tynnu llun ysgol gyfan Whole school photograph will be taken.
Dydd Mercher/Wednesday **19.09.2012**	Tynnu lluniau disgyblion Blwyddyn 7 Year 7 photgraphs will be taken.
Dydd Mawrth/Tuesday 4.00-5.30pm **25.09.2012**	Cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth. An opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher.
Dydd Iau/Thursday **25.10.2012**	Eisteddfod Ysgol ar gyfer Blynyddoedd 7-9. School Eisteddfod for Years 7-9.
Dydd Gwener/Friday **26.10.2012**	Diwrnod hyfforddiant i'r athrawon. **NI FYDD YSGOL I'R DISGYBLION**. Training day for the teachers. **NO SCHOOL FOR PUPILS.**
29.10.2012 – 02.11.2012	**Gwyliau Hanner Tymor** **Half Term Holidays**.

PROBLEM? CWESTIWN?

Mae cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth **4.00pm-5.30pm nos Fawrth, 25 Medi 2012**. Nid oes angen apwyntiad. Nid noson agored na noson rhieni yw hon ond cyfle i drafod unrhyw bryder ynglŷn â'ch plentyn. Cynhelir un o'r sesiynau hyn bob hanner tymor.

PROBLEM? QUESTION?

There is an opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher **4.00pm-5.30pm on Tuesday, 25 September 2012**. An appointment is not necessary. This is not an open evening or a parents' evening but an opportunity to discuss any concerns regarding your child. There will be one such session every half term.

NEWIDIADAU STAFF

Croeso cynnes i'r staff newydd sydd wedi ymuno â ni'r tymor hwn:

- Miss Rachel Pursglove – Dirprwy Bennaeth
- Mr Dylan Williams – Athro Gwyddoniaeth (Ffiseg)
- Ms Manon Dewi – Athrawes Cefnogi Llythrennedd/Rhifedd
- Ms Carol Davies – Cymhorthydd Dosbarth
- Mrs Delyth Furniss – Cymhorthydd Dosbarth
- Ms Helena Ann Jones – Cymhorthydd Dosbarth
- Ms Sonia Jones – Cymhorthydd Dosbarth
- Ms Katie Kirkham – Cymhorthydd Dosbarth
- Ms Ceri Radcliffe – Cymhorthydd Dosbarth

Dymunwn yn dda i'r staff sydd wedi gadael ar ddiwedd y tymor diwethaf, sef, Mr George Lewis Jones, Mrs Liz Dorrington, Mr Robert Dorrington, Miss Ceri Geal, Ms Eleri Powell, Mr Sion Rowlands a Mrs Rowena Roberts.

CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL – HAF 2012

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn y canlyniadau Lefel A unwaith eto eleni. 'Roedd y canrannau llwyddiant ar bob lefel yn galonogol iawn Gyda dros 90 o fyfyrwyr yn derbyn eu canlyniadau Lefel A eleni mae'n braf nodi bod y mwyafrif helaeth ohonynt wedi llwyddo i sicrhau cwrs, o'u dewis cyntaf, mewn Prifysgol, ar gyfer flwyddyn nesaf. Llwyddodd canran uchel iawn o'r flwyddyn i ennill cymhwyster Bagloriaeth Cymru, gan sicrhau mynediad i Addysg Uwch yn sgil y llwyddiant hwn. Mae'r llwyddiant yma yn adlewyrchiad o waith caled myfyrwyr a'r staff i gyd, yn ogystal a chefnogaeth rhieni. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i bob un ohonynt!!

'Roedd y canlyniadau TGAU eleni yn galonogol iawn yn Ysgol David Hughes. 'Rydym yn arbennig o falch **nad** yw unrhyw ddisgybl yn gadael yr ysgol yn ddigymhwyster. Cyrhaeddodd y mwyafrif helaeth o'r disgyblion eu graddau targed. Llwyddodd dros **69.8%** o ddisgyblion Blwyddyn 11 i ennill 5 TGAU neu fwy, graddau A*-C. Cafodd **100%** 5 TGAU neu fwy, graddau A*-G.
Mae'r canrannau uchod yn sylweddol uwch na'r canrannau cenedlaethol.

Gydag amrediad y cyrsiau sydd ar gael i bobl ifanc yn cynyddu bob blwyddyn, mae'n braf nodi'r llwyddiant eleni yn y pynciau craidd - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Bydd dros **100** o fyfyrwyr yn dychwelyd i'r Chweched Dosbarth - adlewyrchiad eto o waith caled y myfyrwyr a staff yr ysgol.

Hoffwn hefyd nodi ein gwerthfawrogiad o gefnogaeth rieni disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Dymunwn yn dda i'r holl ddisgyblion wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf.

GWELLIANNAU I ADEILAD YR YSGOL – HAF 2012

Rydym yn awyddus i sicrhau bod cyfleusterau'r ysgol yn cael eu diweddaru i gyd-fynd ag anghenion disgyblion a staff. Mae'r gwaith canlynol wedi ei gynnal yn ystod yr haf:

- Drysau Tân
- Peintio
- Profion Iechyd a Diogelwch

YMWELD Â'R YSGOL

Mae materion diogelwch yn cael sylw arbennig mewn ysgolion yn dilyn rhai digwyddiadau trist iawn yn y gorffennol. Croesawir rhieni i'r ysgol os dymunant drafod unrhyw fater ond gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol er mwyn trefnu'r ymweliad ymlaen llaw. **Gofynnir i bob ymwelydd fynd i'r Swyddfa Fawr** wrth ymyl y brif fynedfa, lle dosberthir bathodynnau ymwelwyr. Gofynnir i chi beidio â chysylltu'n uniongyrchol ag aelodau unigol o staff yr ysgol ond, yn hytrach, cyflwyno unrhyw gais i'r Pennaeth neu un o'r Dirprwyon. Rydym yn awyddus i sicrhau awyrgylch diogel ar gyfer ein disgyblion gan sicrhau ar yr un pryd, **gyfathrebu effeithiol gyda rhieni ac ymwelwyr**.

GRANT GWISG YSGOL

Mae'n bosib fod gennych hawl i gael grant gwisg ysgol i'ch plentyn os ydych yn derbyn un o'r canlynol:

- Cymorth Incwm
- Lwfans Chwilio am Waith (Seiliedig ar Incwm)
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Credyd Treth Plant (yn unig)

Mae ffurflenni cais ar gyfer grant gwisg ysgol ar gael ym Mhrif Swyddfa'r ysgol.

LABELU GWISG/EIDDO

A fyddai rhieni'n sicrhau bod enwau eu plant ar eu gwisg ysgol, cotiau a bagiau, os gwelwch yn dda.

Os yw eich plentyn wedi colli eiddo, a fyddech yn holi ym Mhrif Swyddfa'r ysgol, rhag ofn bod rhywun wedi dod o hyd i'r eitem ac wedi ei ddychwelyd.

Diolch.

CINIO YSGOL AM DDIM

Efallai bod eich plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r isod:

- Cymorth Incwm
- Lwfans Chwilio am waith (Seiliedig ar incwm)
- Credyd Treth Plant (yn unig)
- Gwarant credyd pensiwn

Mae ffurflenni cais ar gyfer cinio am ddim ar gael ym Mhrif Swyddfa'r ysgol.

LWFANS CYNHALIAETH ADDYSG (EMA)

Gofynnir i unrhyw fyfyriwr sydd eisiau mwy o wybodaeth am y grant neu eisiau gwneud cais am y grant (os nad ydyw wedi gwneud hynny eto) weld Mrs Meinir Davies, Pennaeth Blwyddyn 12 a 13. Mae gwybodaeth ynglŷn â'r lwfans hefyd i'w chael ar y wefan:

www.emawales.gov.uk

DYDDIADURON

Mae pob disgybl ym Mlynyddoedd 7-13 wedi derbyn dyddiadur personol er mwyn trefnu eu gwaith yn rheolaidd. Mae'r dyddiadur hefyd yn fodd pwysig o gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni. Byddwn yn defnyddio'r dyddiadur i rannu gwybodaeth ynglŷn â'r canlynol:

1. Gwaith Cartref
2. Adroddiadau ac Asesiadau
3. Monitro a Thracio Cynnydd yn erbyn targedau
4. Cyfweliadau Tiwtor
5. Llythyrau i Rieni
6. Arholiadau/Asesiadau dan Reolaeth
7. Presenoldeb

Gofynnwn yn garedig i chi drafod cynnwys y dyddiadur gyda'ch plentyn a'i arwyddo pob wythnos.

LLINELL CEFNOGI GWAITH CARTREF

Mae Bwrdd yr Iaith yn cynnig gwasanaeth sy'n rhoi cefnogaeth i blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a'u rhieni. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth gyda geirfa neu dermau Cymraeg, ynghyd â chymorth ymarferol ar faterion cyffredinol yn ymwneud â helpu gyda gwaith cartref cyfrwng Cymraeg.

Mae'r gwasanaeth ar gael o ddydd Sul i ddydd Gwener o 3.00-9.00 yr hwyr. Gellir cysylltu drwy un o'r canlynol:

Ffôn:	**0871 230 0029**
Neges destun:	**0779 780 5607**
e-bost:	**post@gwaithcartref.com** neu **post@homeworkinwelsh.com**.
Gwefan:	byig-wlb.org.uk

PRYDLONDEB

Mae disgwyl i bawb fod yn yr ysgol erbyn **8.45am** er mwyn rhoi dechrau trefnus i'r diwrnod. Gofynnwn am gydweithrediad rhieni yn hyn o beth, yn enwedig ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. **Bydd disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn y bore, neu sy'n hwyr ar gyfer eu gwersi, yn cael eu cadw mewn dalfa (amser cinio ac yna ar ôl ysgol).**

ABSENOLDEB DISGYBLION

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Er mwyn cynnal a gwella presenoldeb yn yr ysgol rydym wedi mabwysiadu trefn gyswllt diwrnod cyntaf drwy ddefnyddio system gyfathrebu 'Keep Kids Safe'. Mae system 'Keep Kids Safe at School' yn gallu anfon neges destun neu neges llais awtomatig yn uniongyrchol at rieni a gofalwyr. Gyda'ch cefnogaeth a'ch cydweithrediad gobeithiwn y gallwn wella'r sefyllfa. Gofynnwn i chi ddilyn y camau isod pan fydd eich plentyn yn absennol.

1. Hoffwn i chi gysylltu â'r ysgol, cyn 8.30am, ar y bore cyntaf y mae eich plentyn yn absennol:
Ffonio: 01248 712287 (rhwng 8.00am ac 8.30am)
neu
01248 718070 (peiriant ateb cyn 8.00am ac ar ôl 4.00pm)
neu
drwy e-bost ar csg.davidhughes@ynysmon.gov.uk

2. Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 8.30 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna bwriedir cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.

3. Gofynnir i chi nodi rheswm yr absenoldeb yn nyddiadur eich plentyn.

Diolch am eich cydweithrediad.

GWYLIAU TEULU YN YSTOD Y TYMOR

Rydym wedi derbyn arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â hyn.
Nid ydym o blaid rhyddhau disgyblion yn ystod tymor ysgol ar gyfer gwyliau teulu. Gofynnwn am eich cydweithrediad i osgoi sefyllfaoedd o'r fath.

CLINIG DISGYBLION – BLYNYDDOEDD 9-13

Mae'r Clinig Disgyblion yn parhau i gael ei gynnal yn yr ysgol ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 9-13.
Dr Khan o'r Gwasanaeth Iechyd sy'n gyfrifol am y clinig ac mae hi'n rhoi cyngor i'r disgyblion ar faterion iechyd. Gall hyn gynnwys amrediad eang o faterion ee, bwyta'n iach, ysmygu, alcohol, rhyw ac yn y blaen.

Os cyfyd unrhyw fater sy'n berthnasol i'r ysgol yna bydd yn cael ei gyfeirio at aelodau o dîm rheoli'r ysgol. Cynhelir y clinig yn ystod amser cinio bob dydd Mawrth 12.30pm-1.30pm. Bwriedir rhannu'r wybodaeth berthnasol gyda'r disgyblion a'u hannog i rannu unrhyw fater sensitif gyda'u rhieni.

PRIS CINIO YSGOL

Mae Gwasanaeth Bwyd Eden wedi ein hysbysu bod pris Cinio Ysgol yn codi o 1 Medi 2012.

Cinio Llawn (2 gwrs)	£2.10
Cwrs Cyntaf	£1.45
Pwdin	£0.95

EISTEDDFOD YR YSGOL

Cynhelir yr Eisteddfod i Flynyddoedd 7, 8 a 9 **dydd Iau, 25 Hydref**.

Beth am i bob disgybl gyfrannu er mwyn ennill pwyntiau i'w tîm?

Gellir cymryd rhan mewn sawl ffordd, gan gynnwys cystadlaethau gwaith cartref, gwaith ymarferol a llwyfan.

GWERSI CERDD

Rhoddir gwersi peripatetig yn yr ysgol mewn offerynnau taro, ffidil, offerynnau pres, gitâr, telyn a chwythbrennau a gwersi canu. Mae cyfle i bawb fanteisio ar y rhain. Gofynnwn i chi gysylltu â'r ysgol am fwy o wybodaeth.

YMDDYGIAD DISGYBLION

Yn anffodus, mae ymddygiad lleiafrif bychan o ddisgyblion yn gallu amharu ar gynnydd, mwynhad a diogelwch disgyblion eraill. Rydym yn benderfynol o sicrhau nad yw'r lleiafrif yma yn parhau i ddylanwadu'n anffafriol ar addysg y mwyafrif.

1. YMDDYGIAD YN Y GWERSI AC AR Y CORIDORAU

Mae'r disgyblion yn llawn ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol a'r angen i ddangos parch tuag at aelodau o staff, disgyblion eraill a'r adeilad. Byddwn yn cysylltu â'r rhieni os nad yw disgybl yn gallu cydymffurfio â'r rheolau sylfaenol. **Gall parhad mewn ymddygiad o'r fath arwain at waharddiad mewnol yn yr ysgol.**

2. BYSIAU YSGOL

Yn y gorffennol, mae ymddygiad rhai disgyblion ar y bysiau ysgol wedi bod yn annerbyniol. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Awdurdod Addysg a'r cwmnïau bws rhagwelir **<u>na</u> fydd y cwmnïau bws yn fodlon cludo rhai unigolion yn ôl ag ymlaen i'r ysgol**. Bydd y cyfrifoldeb am y trefniadau cludiant wedyn yn disgyn ar y rhieni.

Dim ysmygu ar y bws – disgyblion i eistedd yn eu seddi drwy gydol y siwrnai.

3. DIOGELWCH AR YR IARD PAN MAE'R BYSIAU YN CYRRAEDD YN Y BORE

Oherwydd y peryglon pan mae'r bysiau yn cyrraedd rhwng 8.20 -8.40 gofynnir i'r disgyblion i symud o'r iard o flaen yr ysgol yn syth ar ôl cyrraedd y safle.

4. CYFFURIAU/SYLWEDDAU ANGHYFREITHLON

Nid ydym yn fodlon derbyn unrhyw sylwedd anghyfreithlon ar dir yr ysgol. Bydd unrhyw ddisgybl sydd â sylwedd o'r fath yn ei feddiant, neu yn bwriadu dosbarthu sylweddau, yn wynebu gwaharddiad parhaol o Ysgol David Hughes.

5. FFÔN SYMUDOL/CHWARAEWYR CERDDORIAETH/MP3 PERSONOL) / CAMERÂU

Oherwydd y problemau y gall defnyddio ffôn symudol eu hachosi yn ystod gwersi ac arholiadau **ni ddylid dod â nhw i'r ysgol ar unrhyw gyfrif.**

Ni chaniateir i ddisgyblion ddod â chwaraewyr cerddoriaeth/MP3 personol/camerâu i'r ysgol. Os nad yw'r disgyblion yn cadw at y rheol, yna bydd yn rhaid i staff gadw'r peiriant a chysylltu gyda'r rhieni. Mae'r eitemau hyn hefyd yn ddeniadol i ladron.

Diolch am eich cydweithrediad.

GADAEL TIR YR YSGOL

Ni chaniateir i ddisgyblion Blynyddoedd 7-11 adael tir yr ysgol yn ystod yr egwyl foreol.

Dim ond Blynyddoedd 10/11/12/13 sy'n cael mynd allan amser cinio gyda chaniatâd rhieni a 'pass'.

Nid oes caniatâd i'r disgyblion adael tir yr ysgol ar ôl i'r bysiau eu gollwng wrth yr adeilad yn y bore.

CADW DISGYBLION AR ÔL YSGOL – DALFA

Mae gan ysgolion awdurdod cyfreithiol clir i gadw disgyblion am resymau disgyblu ar ôl diwedd sesiwn ysgol heb ganiatâd rhiant. Mae'n ofynnol i'r ysgol hysbysu rhieni o leiaf 24 awr cyn cadw'r plentyn ar ôl ysgol a byddwn, wrth gwrs, yn cymryd i ystyriaeth unrhyw amgylchiadau arbennig.

YSGOL DDI-FWG

Hoffem eich atgoffa bod tu mewn i adeilad yr ysgol a'r tir tu allan yn ardaloedd di-fwg. Ni chaniateir ysmygu ar fws mini'r ysgol nac ar y bysiau ysgol 'chwaith. Mae ysmygu yn y mannau hyn bellach yn erbyn y gyfraith a byddwn yn cysylltu â rhieni os bydd disgyblion yn cael eu dal yn ysmygu.

TALEBAU TESCO

Unwaith eto rydym yn hynod ddiolchgar am eich cydweithrediad i gasglu'r talebau a'u hanfon i'r ysgol. Eleni casglwyd 2456 o dalebau ac ychwanegwyd rhain at y 5793 a gasglwyd y llynedd. Archebwyd 5 o gamerâu fideo a bydd rhain yn gymorth mawr i athrawon ar draws yr ysgol ac yn cynnig profiadau amrywiol i ddisgyblion yn eu gwersi.

~ ~ ~

CLWB CANT

Enillwyr Mis Mai 2012		
Mr Dafydd Ellis	102	£25.00
Mrs Sian Maple	27	£12.00

Enillwyr Mis Mehefin 2012		
Mr Gwyn Roberts	66	£25.00
Mr Derfel Jones	51	£12.00

Enillwyr Mis Gorffennaf 2012		
Mrs Megan Roberts	10	£25.00
Mrs Jackie Flint	55	£12.00

Enillwyr Mis Awst 2012		
Mrs Cheryl Thomas	37	£25.00
Mrs C Elsworth	38	£12.00

TOCYN TEITHIO

Mae angen i ddisgyblion Blwyddyn 12 a 13 sy'n dymuno teithio ar gludiant ysgol wneud cais am docyn teithio. Mae gan ddisgyblion Blynyddoedd 7 -11 sy'n byw llai na thair milltir o'r ysgol hefyd hawl i wneud cais am docyn teithio.

Cost y tocyn yw £60. Mae ffurflenni cais i'w cael o swyddfa'r ysgol ac i'w dychwelyd i:

Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

TREFNIADAU ARGYFWNG
CAU'R YSGOL

Bydd y trefniadau'n ddibynnol ar natur yr argyfwng ond byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau diogelwch y disgyblion a staff yr ysgol.

Dyma'r camau y byddwn yn eu cymryd o fewn yr ysgol:-

1. Bwriedir anfon neges destun i chwi os bydd angen cau mewn argyfwng.
2. Cesglir y disgyblion at ei gilydd mewn grwpiau blwyddyn mewn gwahanol ganolfannau yn yr ysgol.
3. Trefnir bod y cwmnïau bws yn dod i'r ysgol i 'nôl y disgyblion.
4. Hysbysir y gorsafoedd radio canlynol bod angen cau'r ysgol:-
   BBC Radio Cymru, Radio Wales a Heart FM.
5. Cynghorir rhieni hefyd i edrych ar wefan yr ysgol am unrhyw wybodaeth ynglŷn â chau'r ysgol - www.ysgoldavidhughes.org.
6. Cyhoeddir i'r disgyblion **nad ydynt i adael tir yr ysgol (cerdded adref na dal bws) oni bai bod ganddynt fynediad i'w cartrefi neu dŷ perthynas/ffrind agos (yn unol â'r drefn deuluol).**
7. Gelwir y disgyblion i'r bysiau, fesul bws.
8. Defnyddir bws mini'r ysgol i gludo rhai disgyblion gartref os bydd angen.

Anaml y bydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barod pan fydd angen gwneud penderfyniad brys. Gallwn eich sicrhau ein bod bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y disgyblion.

Hoffwn dynnu eich sylw yn arbennig at bwynt 6 uchod, sef, yr angen i ddisgyblion fod yn glir ynglŷn â'r trefniadau 'adref' mewn sefyllfa o argyfwng.

Gofynnir i chi sicrhau bod eich plentyn yn ymwybodol o'r trefniadau y dymunwch iddynt eu dilyn mewn argyfwng.

Pwysleisiwn eto na ddylai disgyblion adael tir yr ysgol os nad oes mynediad i'w cartrefi neu gartref perthynas/cyfaill, wedi ei drefnu gennych chi o flaen llaw. Byddwn yn sicrhau bod y disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol hyd at yr amser y byddwch wedi gwneud trefniadau iddynt fynd adref. Cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â hyn.

STAFF CHANGES

We welcome the following staff who have joined us this term:

- Miss Rachel Pursglove – Deputy Headteacher
- Mr Dylan Williams – Science Teacher (Physics)
- Ms Manon Dewi – Literacy/Numeracy Support Teacher
- Ms Carol Davies – Classroom Assistant
- Mrs Delyth Furniss – Classroom Assistant
- Ms Helena Ann Jones – Classroom Assistant
- Ms Sonia Jones – Classroom Assistant
- Ms Katie Kirkham – Classroom Assistant
- Ms Ceri Radcliffe – Classroom Assistant

We send our best wishes to Mr George Lewis Jones, Mrs Liz Dorrington, Mr Robert Dorrington, Miss Ceri Geal, Ms Eleri Powell, Mr Sion Rowlands and Mrs Rowena Roberts who left us at the end of last term.

EXTERNAL EXAMINATION RESULTS – SUMMER 2012

The school is once again proud of this year's A Level results. The success rates for each level were very encouraging. With over 90 pupils obtaining A Level results this year, it is heartening to note that the majority of the pupils has been successful in securing places, of their first choice, at University, for the next year. A large majority of the year group attained the Welsh Baccalaureate, which helped to secure admission to Higher Education due to this success. The results reflects the hard work of the individual pupils and all the school staff, and, of course, the support of parents. Congratulations and best wishes to each one of them!

This year's GCSE results at Ysgol David Hughes were very encouraging. We are especially proud that no pupil left the school unqualified. The majority of pupils achieved their target grades. Over **69.8%** of last year's Year 11 pupils obtained 5 GCSEs at grades A*-C or better. **100%** achieved 5 GCSEs at grades A*-G or better.
These percentages are significantly above national comparators.

With a wide range of available courses increasing each year, it is heartening to note the success in the core subjects – Welsh, English, Mathematics and Science. Over **100** students have returned to the Sixth Form – a reflection of the hard work of students and the school staff.

Also, we would like to note our appreciation of Year 11 and Year 13 parents support during the last few years.
Our best wishes to all students who are commencing new university or college courses, or other new career paths.

SCHOOL BUILDING IMPROVEMENTS – SUMMER 2012

We aim to ensure that the school's facilities are updated to meet the needs of our pupils and staff. The following improvements were made during the summer:

- Fire Doors
- Painting
- Health and Safety PAT Testing

VISITING SCHOOL

Safety matters are receiving considerable attention in schools following a series of sad and unfortunate incidents in the past. Parents are welcome in school whenever any matter needs to be discussed but we would ask you to contact the school to arrange a visit beforehand. **All visitors should on arrival report to the Main Office,** by the main entrance. Visitor passes can then be distributed. Please do not contact individual members of staff directly, but instead, ensure that any request is first presented to the Headteacher or one of the Deputies. We want to ensure a safe environment for our pupils whilst maintaining appropriate **communication with parents and visitors.**

SCHOOL UNIFORM GRANT

You may be entitled to a grant towards your child's school uniform if you receive any of the following:

- Income Support
- Job Seekers Allowance (Income Based)
- Widowed Parent's Allowance
- Child Tax Credit (only)

Application forms for the school uniform grant are available from the school's Main Office.

LABELLING UNIFORM/PROPERTY

Could parents please ensure that their child's name is clearly labelled on their school uniform, coat and bag.

If your child has lost any item of property, please check to see if it has been handed in at the Main Office.

Thank you.

FREE SCHOOL MEALS

Your child could be entitled to free school meals if you are in receipt of one of the following:

- Income Support
- Job Seekers Allowance (Income Based)
- Child Tax Credit (Only)
- Guarantee element of State Pension Credit

Application forms for free meals are available from the Main Office

EDUCATION MAINTANANCE ALLOWANCE

Any student who would like to know more about the grant or would like to apply for the grant (if they have not yet done so) should see Mrs Meinir Davies, Head of Years 12 and 13. You will also find information about the grant on the website:

www.emawales.gov.uk

DIARIES

Every pupil in Years 7-13 has received a personal diary so that they can organise their work regularly. The diary is also an important means of communication between school and parents. We will use the diary to share information regarding the following:

1. Homework
2. Reports and Assessments
3. Monitoring and Tracking Progress against targets
4. Tutor interviews
5. Letters to Parents
6. Examinations/Controlled assessments
7. Attendance

We kindly ask you to discuss the contents of the diary with your child and sign it every week.

WELSH HOMEWORK SUPPORT LINE

The Welsh Language Board provides a service offering support to children in Welsh medium and bilingual education and their parents. The service provides assistance with Welsh vocabulary and terms, along with practical support on general matters regarding helping with homework that has been set in Welsh.

The service is available from Sunday to Friday from 3.00-9.00 pm. The contact details are as follows:

Phone:	**0871 230 0029**
Text message:	**0779 780 5607**
e-mail:	**post@gwaithcartref.com** or **post@homeworkinwelsh.com**.
Internet:	byig-wlb.org.uk

PUNCTUALITY

All pupils are expected to be in school by **8.45am** in order to ensure an orderly start to the school day. Your co-operation is therefore requested at the beginning of a new school year.

Pupils who arrive late in the morning, or are late for lessons, will be kept in detention (initially at lunch-time and then after school).

PUPIL ABSENCE

Regular attendance is essential if pupils are to take full advantage of the educational opportunities presented to them. In order to improve the overall attendance in school, we have adopted a first day contact system using the communication system 'Keep Kids Safe'. The 'Keep Kids Safe at School' system securely sends text messages and/or automated voice broadcasts direct to parents and carers. With your backing and co-operation, we hope that we can improve the situation. We ask you to take the following steps when your child is absent.

1. **Please contact the school, before 8.30am, on the first morning that your child is absent:**

Phone: 01248 712287 (between 8.00am and 8.30am)
or
01248 718070 (answer machine – before 8.00am and after 4.00pm)
or
e-mail: csg.davidhughes@anglesey.gov.uk

2. If the school has not received a call by 8.30am explaining why your child is not in school, we intend to contact the home or workplace.

3. Please note the reason for absence, in the pupil's diary.

Thank you for your co-operation.

HOLIDAYS DURING TERM TIME

We have received guidance from the Welsh Assembly Government regarding the above.
We are not in favour of releasing pupils for holidays during the school term. We ask for your co-operation in ensuring that such situations do not arise.

PUPILS' CLINIC – YEARS 9-13

The Pupils' Clinic continues to be held at the school for pupils in Years 9-13. Dr Khan from the Health Authority is responsible for the clinic and she is able to advise pupils on health matters. This can include a variety of matters for example, healthy eating, smoking, alcohol, sexual issues etc.

If any issues arise that are relevant to the school, these will be referred to the school's management team. The clinic will be held each Tuesday lunchtime 12.30pm-1.30pm. This information will be conveyed to the pupils and they will of course be encouraged to share any sensitive issues with their parents.

SCHOOL MEAL PRICES

Eden Food Service has informed us that the price of School Meals will increase from 1 September 2012.

Full meal (2 courses)	£2.10
First Course	£1.45
Pudding	£0.95

SCHOOL EISTEDDFOD

The Eisteddfod for Years 7, 8 and 9 will be held on **Thursday, 25 October**.

We encourage all pupils to contribute in order to gain points for their team.

There are many ways in which pupils can participate, including homework, practical work and stage competitions.

MUSIC LESSONS

Peripatetic lessons in percussion, violin, guitar, harp, woodwind and brass instruments and singing lessons are taught at the school. This opportunity is open to all pupils. Please contact the school for further details.

PUPIL BEHAVIOUR

Unfortunately, the poor behaviour of a small minority of pupils can affect the progress, enjoyment and safety of other pupils. We are determined to ensure that this small minority does not adversely affect the education of the majority.

1. BEHAVIOUR IN LESSONS AND ON THE CORRIDORS

Pupils are fully aware of the school's expectations and the need to show respect towards members of staff, other pupils and the building. We intend to contact you, as parents, if any pupil cannot conform to these basic rules. **Continued misbehaviour could result in an internal exclusion in school**.

2. SCHOOL BUSES

The behaviour of some pupils on the school buses has been unacceptable. Following discussions with the Education Authority and the bus companies it is likely that the **bus companies will refuse to transport certain individuals to and from school**. The responsibility for transport arrangements will then rest with parents.

No smoking on the buses – pupils are to remain seated throughout the journey.

3. SAFETY ON THE YARD WHEN THE BUSES ARRIVE IN THE MORNING

Due to the safety issues when the buses arrive between 8.20-8.40, pupils are requested to leave the front yard immediately after they arrive on site.

4. DRUGS/ILLEGAL SUBSTANCES

We will not tolerate the presence of illegal substances on the school premises. Any pupil involved in the possession or distribution of illegal substances faces permanent exclusion from Ysgol David Hughes.

5. MOBILE PHONES/PERSONAL MUSIC/MP3 PLAYERS/CAMERAS

Due to the problems that mobile phones can cause during lessons and examinations, **they are not, under any circumstances, to be brought into the school**.

Pupils are not allowed to bring personal music/MP3 players/cameras to school. If this rule is not adhered to then staff will confiscate the item and contact the parents. These items are also a target for thieves.

Thank you for your co-operation.

LEAVING THE SCHOOL GROUNDS

Pupils in Years 7-11 are not allowed to leave the school grounds during the morning break.

Only Year 10/11/12/13 pupils are allowed outside of the school grounds at lunch time and only if they have a school pass and parental consent.

Pupils do not have permission to leave the school grounds once they have been dropped off by the buses first thing in the morning.

DETENTION

Schools have the legal authority to detain pupils on disciplinary grounds after the end of a school session without the consent of parents. The school must give at least 24 hours notice before the detention takes place and we will, of course, take account of any special circumstances applying to individual pupils.

SMOKE-FREE SCHOOL

We would like to remind you that smoking is prohibited within the school building and on the school grounds. Smoking is not permitted on the school minibus or school buses either. Smoking in these areas is now against the law. If pupils are caught smoking, the school will contact their parents.

TESCO VOUCHERS

Once again we would like to thank you for your co-operation in collecting and sending the vouchers to the school. This year 2456 vouchers were received and these were added to the 5793 vouchers banked last year. Five digital cameras have been ordered which will allow teachers a better opportunity to provide a variety of learning experiences within their subject areas.

~ ~ ~

ONE HUNDRED CLUB

May 2012 Winners		
Mr Dafydd Ellis	102	£25.00
Mrs Sian Maple	27	£12.00

June 2012 Winners		
Mr Gwyn Roberts	66	£25.00
Mr Derfel Jones	51	£12.00

July 2012 Winners		
Mrs Megan Roberts	10	£25.00
Mrs Jackie Flint	55	£12.00

August 2012 Winners		
Mrs Cheryl Thomas	37	£25.00
Mrs C Elsworth	38	£12.00

BUS PASS

Year 12 and 13 students who wish to travel on school transport are required to apply for a bus pass. Year 7 -11 pupils who live less than 3 miles from the school are also entitled to apply for a bus pass.

The bus pass costs £60. Application forms are available from the school's Main Office and should be returned to:

Head of Service (Highways and Waste Management)
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

ARRANGEMENTS IN AN EMERGENCY
CLOSING THE SCHOOL

The arrangements will depend on the nature of the emergency but the safety of the pupils and school staff will be our priority at all times.

These are the steps that will be taken within the school:

1. We intend to send you a text message if the school closes in an emergency.
2. Pupils will be gathered together in year groups at different assembly points in the school.
3. We will arrange for the buses to come to the school to collect the pupils.
4. The following radio stations will be notified that the school is to close:-
   BBC Radio Cymru, Radio Wales and Heart FM.
5. Parents are also advised to check the school website for any information regarding closing the school – www.ysgoldavidhughes.org.
6. The pupils will be informed that they are **not to leave the school (walking or on a bus) unless they have entry to their homes or a close relative/friend's home (according to the family's arrangements).**
7. The pupils will be called to the buses, one bus at a time.
8. The school minibus will be used to transport some pupils home if necessary.

This type of situation is very rare, and we appreciate your support when decisions have to be made quickly in an emergency. We can assure you that the pupils' safety is our priority at all times.

We would like to draw your attention to point 6 above in particular, which emphasizes the need for pupils to be clear about the arrangements 'at home' in an emergency situation.

Please ensure that your child is fully aware of the procedures that you wish them to follow in such an emergency.

We emphasize once again that pupils should not leave the school site if they do not have entry to their homes or a relative/close friend's home, as arranged by you beforehand. Alternatively, we will ensure that the pupils are safe at the school until you have made arrangements for them to go home.

Please do not hesitate to contact us if you have any questions on this matter.